Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Undeb Bedyddwyr Cymru / The Baptist Union of Wales

Eglwys Bresbyteraidd Cymru



# CREU EGLWYS FWY DIOGEL i bawb

Panel Diogelu Cydenwadol / Interdenominational Safeguarding Panel

HYFFORDDIANT DIOGELU

Lefel 1

---



Arglwydd

Gwyddom fod amddiffyn y rhai sy'n bregus wrth wraidd y neges gristnogol. Heddiw, wrth i ni ddechrau'r hyfforddiant hwn, rydym yn codi y rhai sy'n bregus i ti, hefyd y rai sydd angen eu hamddiffyn a'r rhai sy'n ofnus, sy wedi cael eu clwyfo a'u brifo. Dyro dy ddiogelwch, dy gysur a dy heddwch iddynt.

Bydd gyda ni nawr wrth i ni ddysgu mwy am ddiogelu a cheisio dy anrhydeddu a dy wasanaethu di wrth ofalu am y rhai rydym yn eu cyfarfod drwy ein gwaith gyda phlant ac oedolion bregus. AMEN



---

## Nod y cwrs

- Hybu dealltwriaeth o ddiogelu yng nghyd-destun eich eglwys chi
- Gwybod ble i fynd am gyngor a chefnogaeth
- Gwybod sut i ymateb i bryderon

Amcanion dysgu

Panel Diogelu Cydenwadol / Interdenominational Safeguarding Panel

---

## Erbyn diwedd y sesiwn dylech chi wybod mwy am

- Y polisi diogelu yn eich eglwys chi
- Ble i ddod o hyd i wybodaeth a chefnogaeth
- Recriwtio mwy diogel ac arfer da
- Arwyddion a dangosyddion cam-drin ac esgeulustod
- Sut i ymateb i bryderon

---

## Y Panel Diogelu Cydenwadol a'ch eglwys chi...

**Ffurfiwyd yn 2001 gan EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU, UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG, UNDEB BEDYDDWYR CYMRU i ddarparu:**

- cymorth a chyngor diogelu
- polisi a hyfforddiant diogelu
- gwiriadau DBS ar gyfer y tri enwad
- Julie Edwards yw'r swyddog diogelu dynodedig y tri enwad


Panel Diogelu Cydenwadol / Interdenominational Safeguarding Panel

**Pwy ydym ni?**


---

## Edrychwch ar ôl eich hun

- Delweddau neu atgofion sy'n eich cynhyrfu
- Cymerwch seibiant
- Cyngor a chefnogaeth https://panel.cymru/cy/cyngor-a-chefnogaeth



Sut mae...
EGLWYS FWY DIOGEL YN EDRYCH?
4 Egwyddor Diogelu Allweddol


4. Pawb yn gwybod sut i ADRODD AM BRYDERON
3. DIWYLLIANT IACH sy'n tryloyw a chefnogol
2. Ystyried pwy allai fod AGORED I NIWED a gweithredu i'w cadw'n ddiogel
1. POLISÏAU a GWEITHDREFNAU CLIR cydlynydd diogelu, recriwtio, hyfforddiant, arfer gorau, adrodd am bryderon
Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus
Safeguarding Vulnerable Groups Handbook


COMISIWN ELUSENNAU AR GYFER CYMRU A LLOEGR
www.gov.uk/guidance/safeguarding-duties-for-charity-trustees.cy
Atodiad 7: Ymddiriedolwyr elusen a diogelu
https://panel.cymru/images/atodiad_7_ymddiriedolwyr_2022.


Beth ydy
Diogelu?


Diogelu yw...
AMDDIFFYN pobl fregus rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod.
ADNABOD arwyddion a nodweddion camdriniaeth ac YMATEB mewn modd priodol.
Mae'n ATALIOL yn ogystal ag yn AMDDIFFYNNOL ac yn cynnwys DARPARU GWEITHGAREDDAU DIOGEL a GOFAL PRIODOL.
Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus


Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant(Cymru) 2014
Mae diogelu yn ATALIOL yn ogystal âg AMDDIFFYNNOL
Nid yw'n ofynnol bod camdriniaeth neu esgeulustod wedi digwydd cyn penderfynu gweithredu.
MAE ANGEN YSTYRIED PWY ALL WYNEBU RISG A GWEITHREDU I'W CADW'N DDIOGEL
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
Llesiant
Pobl

## Bregus → agored i niwed

Symudiad i ffwrdd o'r term “BREGUS" tuag at ‘ AGORED I NIWED / MEWN PERYGL O NIWED', fel arfer wedi'i fyrhau i 'oedolion neu blant MEWN PERYGL

Mae hyn yn canolbwyntio ar y cysylltiad rhwng cam-drin ac amgylchiadau yn hytrach nag ar nodweddion y bobl sy'n profi'r niwed.

Mae'r canllawiau statudol yn nodi bod cynnwys AGORED I NIWED yn galluogi ymyrraeth gynnar i amddiffyn y rhai sydd mewn perygl.


Caniatau gweithredu CYN camdriniaeth wedi digwydd. ATALIOL

---

MAE ANGEN YSTYRIED PWY ALL WYNEBU RISG A GWEITHREDU I'W CADW'N DDIOGEL



---





## Beth sy'n gwneud rhywun yn fwy BREGUS/ WYNEBU RISK ?

- Anhawsterau cyfathrebu /dim cyfathrebu llafar
- Diffyg gallu edd a dealltwriaeth
- Ddim yn ymwybodol o hawliau
- Arferion sefydliadol gwael
- Lefel isel o hunan-barch / hunan-werth
- Byw mewn sefydliad / plentyn sydd mewn gofal
- Trais domestig,
- Gofalwyr sy'n camddefnyddio cyffuriau/alcohol
- Gofalwyr gyda phroblemau iechyd meddwl
- Anabledd
- Y teulu neu'r unigolyn wedi'u hynysu
- Cam-drin neu esgeuluso wedi digwydd yn flaenorol

---

**PLENTYN SY'N WYNEBU RISG:**

un sy'n profi neu mewn perygl o gael ei gam-drin, ei esgeuluso neu ei niweidio

sydd ag anghenion am ofal a chymorth

*(p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio)*



**OEDOLYN SY'N WYNEBU RISG :**

yw rhywun (18 oed neu'n hŷn) sydd:

- yn profi, neu mewn perygl o ddioddef camdriniaeth neu esgeulustod
- sydd ag anghenion gofal a chymorth *(p'un a yw'r awdurdod lleol yn diwallu unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio).*

O ganlyniad i'r anghenion hynny nid yw'n gallu amddiffyn eu hunain rhag camdriniaeth neu esgeulustod na'r risg ohono

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Adran 26(1)**

---




---

## Beth yw ein Fframwaith?


Ein polisi a'n gweithdrefnau

Deddfwriaeth a gweithdrefnau Cymreig / DU


**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

Trefniadau Diogelu Cymru 2020

Deddfwriaeth arall e.e.:
- Deddf Plant 1989 and 2004,
- UNCRC 1989 1989
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Protection of Freedoms Act 2012
- Safeguarding Vulnerable Groups Act 2006
- The Rehabilitation of Offenders Act 1974
- Data Protection Act 2018 & GDPR UK






## Ein polisi a'n gweithdrefnau:


AMDDIFFYN
-Deall yr arwyddion a'r symptomau o gamdriniaeth
-Gwybod sut i ymateb
-Gwybod ble i droi am gymorth

DARPARU GWEITHGAREDDAU DIOGELU AC ATAL NIWED

*-Gweithio'n unol ag arfer gorau gyda grwpiau bregus*
*-Arferion recriwtio a dethol mwy diogel*

## Yn y Llawlyfr...

| | | |
|---|---|---|
| 1 Cyflwyniad | 2 Recriwtio mwy diogel | 3 Plant a Phobl Ifanc |
| 4 Oedolion Bregus | 5 Gofal Bugeiliol | 6 Atodiadau |
| 7. Ffurflenni | https://panel.cymru/cy/llawlyfr-diogelu-grwpiau | |




## Ein Datganiad Polisi Diogelu

**Bydd yr eglwys yn gofalu am blant, pobl ifanc ac oedolion bregus drwy ddilyn arferion da mewn perthynas â'r canlynol:**

1. Ymateb yn briodol i bryderon a honiadau
2. Recriwtio gweithwyr a gwirfoddolwyr yn fwy diogel
3. Hyfforddi a chefnogi eu gweithwyr a gwirfoddolwyr yn eu swyddogaeth ac mewn amddiffyn grwpiau bregus
4. Hybu arferion gwaith da

Tudalen 9




## Datganiad Polisi yr eglwys lleol

newydd

- Mae hyn yn unol ag arferion gorau ac yn eich helpu i gwrdd â gofynion y Comisiwn Elusennau a chwmniau yswiriant
- fformat newydd - i'ch helpu i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo diogelu'n lleol.
- yn cynnwys disgrifiad o rolau a chyfrifoldebau diogelu y panel a'r eglwys leol e.e. cydlynydd lleol.
- Ar gael yn y llawlyfr 2022 adran 1 ac ar-lein

https://panel.cymru/cy/polisiau-a-gwybodaeth
https://panel.cymru/cy/cydlynydd-diogelu-lleol




# Nid ydych ar eich pen eich hun!

Mae 'na lawer o help, gwybodaeth a chymorth ar gael ...



## Cysylltwch â ni

**01745 817584**


**07957 510346**

post@panel.cymru

https://panel.cymru

---

## https://panel.cymru



---


## FFYNONELLAU CYMORTH

mae 'na wastad cymorth ar gael

*Atodiad 1 yn y llawlyfr*

*tudalen 20 yn llyfryn hyfforddi*

*https://panel.cymru/cy/cyngor-a-chefnogaeth*



---

## Peidiwch â phoeni am gofio popeth!




---




Tudalen


3 Beth wyt ti'n feddwl?
5 Beth yw diogelu?
5 Datganiad polisi
6 Recriwtio a dethol mwy diogel
7 Egwyddorion arfer da
8 Gweithio gyda phlant a phobl ifanc
9 Gweithio gydag oedolion bregus
10 Rhestr wirio arfer da
11 Cwblhau asesiad risg
12 Categorïau ac arwyddion o gam-drin mewn plant
14 Arwyddion o gam-drin mewn oedolion bregus
16 Ymateb i bryder neu honiad
17 Sut i ymateb os bydd rhywun yn datgelu camdriniaeth
18 Beth nesaf? Profwch eich gwybodaeth
19 Eich sefyllfa leol - sut ydych chi'n gwneud?
Adnoddau a ffynonellau cymorth
Clawr cefn Beth i'w wneud os byddwch yn clywed, yn gweld neu'n amau rhywbeth


---


Hyd yn hyn rydym wedi edrych ar ein polisi diogelu a rhai diffiniadau…

gweddill ein hamser gyda'n gilydd byddwn yn edrych ar…

- **Recriwtio mwy diogel**
- **Arfer da**
- **Adnabod camdriniaeth**
- **Ymateb i bryderon**

# Recriwtio mwy diogel

**RECRIWTIO MWY DIOGEL**



**Mwy na DBS yn unig…**

## Proses Recriwtio Mwy Diogel

1. 'Ffurflen gwirfoddoli' neu ffurflen gais
2. 'Ffurflen Hunan-ddatganiad'
3. Sgwrs anffurfiol am y swydd (i wirfoddolwyr) neu gyfweliad (cyflogeion)
4. 'Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd' (DBS)
5. Geirda gan ddau ganolwr annibynnol
6. Hyfforddiant /cymorth priodol


**Adran 2 yn y Llawlyfr ac ar-lein https://panel.cymru/cy/recriwtio-mwy-diogel**

**Pwy sydd angen gwneud gwiriad DBS?**

**Llawer o wybodaeth i'ch helpu**

Adran 2 o'r llawlyfr

http://panel.cymru/cy/dbs




# Arfer Da

## ARFER DA

yn allweddol i greu AMGYLCHEDD DIOGEL a gall ATAL pethau rhag mynd o chwith




y Llyfryn Gwybodaeth Tudalen 7-11





Adran 3 a 4 o'r Llawlyfr

## Egwyddorion Arfer Da

- Pawb yn ymwybodol o'r polisi diogelu ac yn deall eu cyfrifoldebau diogelu. (cod ymddygiad)
- Mae gweithgareddau yn cael eu cynllunio'n ofalus - gan gynnwys asesiadau risg a canllawiau penodol
- Rydych yn gwrando ar bawb ac yn eu trin gydag urddas a pharch.
- Mae ethos tryloyw ac agored yn cael ei hybu lle mae pawb yn teimlo'n rhydd i ofyn am help
- Rydych bob amser yn ymwybodol o'ch diogelwch eich hun.

Tudalen 8 - 10 yn y llyfryn
Adran 3 a 4 yn y Llawlyfr



## Atodiad 2A
## COD YMDDYGIAD

- Helpu gwirfoddolwr i ddeall ei rôl a'i gyfrifoldebau diogelu
- Yn datgan beth ddylai unigolyn ei wneud os oes ganddynt bryder
- Creu cofnod o ymrwymiad

https://panel.cymru/cy/llawlyfr-diogelu-grwpiau

https://panel.cymru/images/atodiad_2a_ein_cod_ymddygiad_diogelu_2022.pdf

## Rhestr Wirio Arfer Da – pethau ymarferol

**ASESIADAU RISG**
adeiladau a sefyllfaoedd

**DOGFENNAU**
Caniatâd llun, ffurflenni gwybodaeth
i'ch helpu i ddeall anghenion y plant

**Digon o bobl!**
Sy wedi'u recriwtio'n ddiogel: Gwiriadau DBS. Cod Ymddygiad Atodiad 2a

**Mae pawb yn deall eu RÔL a CYFRIFOLDEBAU**

**SIGNAL FFÔN**
mewn argyfwng

Tudalen 11 yn y llyfryn



## Cyffwrdd

*Mae'n rhan o fywyd bob dydd ac yn ffordd o gyfleu cynhesrwydd **ond** mae bob amser angen bod :*

Yn briodol i'r oedran ac yn gysylltiedig ag anghenion y plentyn - nid y gweithiwr


Parchu ffiniau gwahanol – gofynnwch

Nid y tu ôl i ddrysau caeedig!

Atebol a thryloyw

Llawlyfr adran 3.1 Arfer da wrth weithio gyda phlant

## gweithio a chyfathrebu ar-lein gyda phlant



- Polisïau clir ar gyfer cyfathrebu'n electronig â phobl ifanc. https://panel.cymru/cy/diogelwch-ar-y-we
- Dilynwch egwyddorion diogelu arferol
- Dilynwch ganllawiau oedran ar gyfer llwyfannau a gemau bob amser
- Cefnogwch plant a'u teuluoedd i gadw'n ddiogel ar-lein .Ymwybyddiaeth o'r peryglon a'r ffynonellau cymorth. e.e.www.net-ware.org.uk/ www.thinkuknow.co.uk/
- Annog mynediad at hyfforddiant a gwybodaeth arbenigol https://learning.nspcc.org.uk/training/online-safety

Llawlyfr adran3.3 Page 41-44





## Lluniau a ffilmio


- Dylech bob amser ddilyn eich polisi ffotograffau a delweddau.
- Peidiwch â chymryd lluniau gyda'ch ffôn personol neu at ddefnydd personol.
- Rhaid cael caniatâd cyn i unrhyw ffotograffau gael eu tynnu a'u defnyddio.
- Gwnewch yn siŵr bod caniatad lluniau wedi'i gynnwys ar y ffurflen archebu / ffurflen gofrestru


Gweler Llawlyfr Adran 3.3 t38
ac Atodiad 8 Defnyddio a rhannu delweddau o blant


Panel Diogelu Cydenwadol
Interdenominational Safeguarding Panel
Creu
Eglwys Fwy Diogel
i Bawb
Nodiadau
Sesiwn Hyfforddiant
a llyfryn gwybodaeth
Rhowch gynnig ar y syniad GWAITH GRŴP hwn…
Edrychwch ar y rhestrau arfer da yn y llyfryn:
Tudalen 8 ar gyfer GWAITH PLANT
Tudalen 9 ar gyfer OEDOLION
1. Ydy unrhyw beth yn sefyll allan neu heb groesi eich meddwl o'r blaen?
NEU
2.Dewiswch un sy'n bwysig yn eich barn chi ac esboniwch pam.
Ysgrifennwch eich atebion ar dudalen 7


Adnabod arwyddion
o
GAMDRINIAETH,
NIWED AC
ESGEULUSTOD


PAM mae angen i ni ADNABOD arwyddion cam-drin?
Yn aml, dydy plant a phobl fregus ddim yn gallu, neu maen nhw'n amharod
i geisio cymorth yn uniongyrchol
ADNABOD


Rhai resymau pam nad yw pobl yn datgelu camdriniaeth?
• teimlo ar fai
• teimlo'n euog
• ofn unrhyw ganlyniadau
• Ddim yn adnabod y weithred fel cam-drin
• Methu cyfathrebu'n effeithiol


Sut mae dioddefwr yn gallu teimlo..
• A fyddaf yn cael fy nghredu?
• Rwyf wedi ceisio ei anwybyddu
• Dydw i ddim eisiau dweud unrhyw beth oni bai fy mod yn siŵr y byddaf yn cael fy nghredu
• Fy ngair i yn erbyn ffrind, teulu, aelod parchus o gymdeithas


PWY sy'n cam-drin plant neu oedolion bregus?
UNRHYWUN

AR-LEIN

# UNRHYWLE

BLE?

ALL CAMDRINIAETH NEU ESGEULUSTOD DDIGWYDD?



- Agor ein llygaid i ystyried bod niwed ac esgeulustod yn gallu digwydd yma!

**Credwch yr anghredadwy**

## Beth yw CAM-DRIN a NIWED?

**Mae'n drosedd yn erbyn hawliau dynol sy'n rhoi rhywun mewn perygl neu'n effeithio ar ansawdd bywyd**

**Gall ddigwydd unwaith neu dro ar ôl tro**

**NIWED yn effeithio ar iechyd corfforol neu feddyliol, neu ddatblygiad corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol.**

ADNABOD

## Gall CAM-DRIN fod yn...

**GORFFOROL – RHYWIOL - EMOSIYNOL neu SEICOLEGOL, ARIANNOL - SEFYDLIADOL**

fwriadol neu yn ganlyniad i anwybodaeth neu ddiffyg hyfforddiant

**Mae ESGEULUSTOD yn fethiant i ddiwallu anghenion sylfaenol person**

Rhywun yn **methu ag atal** plentyn neu oedolyn rhag cael ei niweidio

ADNABOD

## Beth yw esgeulustod?

Mae plentyn neu berson agored i niwed yn dibynnu ar eraill am ofal ac i ddiwallu eu hanghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol

**ESGEULUSTOD** yw'r methiant parhaus i ddiwallu'r anghenion hyn

- Efallai y byddant yn cael eu gadael yn llwglyd neu'n fudr, heb ddillad priodol, lloches, goruchwyliaeth na gofal iechyd.
- Gall gael effeithiau hirdymor difrifol ar les corfforol a meddyliol.
- Gall fod yn fwriadol neu beidio
- Dyma'r math mwyaf cyffredin o gam-drin



## Mae cam-drin hefyd yn cynnwys...

- Camfanteisio'n rhywiol ar blant
- Meithrin perthnasau amhriodol ar-lein
- Bwlio
- Seiberfwlio cam-drin ar-lein
- Rheolaeth orfodol a cham drin domestig
- Cam-drin ysbrydol
- Cam-drin nad yw'n ddiweddar / hanesyddol
- Caethwasiaeth fodern a masnachu plant
- Radicaleiddio
- Anffurfio organau cenhedlu menywod (FGM)

https://panel.cymru/cy/llawlyfr-diogelu-grwpiau

Atodiad 9

# Arwyddion o gam-drin

Mae llawer o'r arwyddion bod plentyn neu oedolyn bregus yn cael ei gam-drin yn debyg ar draws y wahanol fathau o gamdriniaeth.

**MAE ANGEN I UNRHYW UN SY'N GWEITHIO GYDA PHLANT NEU BOBL BREGUS ALLU ADNABOD YR ARWYDDION**

## Arwyddion posibl o gam-drin mewn PLANT



www.nspcc.org.uk/what-is-child-abuse/spotting-signs-child-abuse/


| | | |
|---|---|---|
| Newidiadau anesboniadwy yw ymddygiad neu bersonoliaeth | yn mewnblyg, bryderus neu'n iselder | Gwybod am 'faterion oedolion' yn amhriodol i'w hoedran |
| Perthynas wael gyda rhiant neu ofalwr | afresymol o ymosodol | ymddygiad pryderus gan oedolion sy'n gofalu am blant |
| Bob amser yn dewis dillad sy'n gorchuddio eu corff | rhedeg i ffwrdd neu fynd ar goll yn rheolaidd o'r cartref neu'r gofal | Dim digon o sylw meddygol ar ôl anafiadau. |

**Efallai bod gan yr ymddygiadau hyn esboniadau eraill ond ni ddylid eu hanwybyddu**

## PLANT

Categorïau ac arwyddion posibl o gam-drin

- **Corfforol**
- **Rhywiol**
- **Emosiynol**
- **Esgeulustod**



## Arwyddion posibl o gam-drin mewn OEDOLION BREGUS

| | | |
|---|---|---|
| **Arwyddion corfforol o gam-drin: cleisiau, clwyfau, ac anafiadau heb eu trin** | **Newidiadau yn eu cymeriad arferol, e.e.** yn dawel neu yn fewnblyg | **Yr un anafiadau sy'n digwydd fwy nag unwaith** |
| **Bod yn ymosodol neu'n ddig am ddim rheswm amlwg** | **Dim yn fodlon cael eu gadael ar eu pen eu hunain neu gyda phobl benodol** | **Bod yn anarferol o ysgafn a mynnu nad oes dim o'i le** |
| Edrych yn flêr, yn fudr neu'n deneuach nag arfer | **Efallai fod gan yr ymddygiadau hyn esboniadau eraill ond ni ddylid eu hanwybyddu** | |




## Categorïau cam-drin ac arwyddion posibl

### Oedolion Bregus

- **Corfforol**
- **Rhywiol**
- **Seicolegol**
- **Ariannol/ Deunydd**
- **Esgeuluso**
- **Sefydliadolal**

*Tud 46/47 – Llawlyfr Tudalen 14/15 llyfryn*



peidiwch byth âg anwybyddu

# NEWID

**arwyddocaol**

Cofiwch...
Mae diogelu yn **ATALIOL** yn ogystal â **AMDDIFFYNNOL**

Does dim gofyniad bod camdriniaeth neu esgeulustod eisoes wedi digwydd cyn penderfynu gweithredu

Mae angen i ni ystyried pwy allai fod **MEWN PERYGL** a gweithredu i'w cadw'n ddiogel.

Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014

YMATEB
ac
ADRODD

## Gall fod yn anodd... I ADRODD

- Weithiau gall ein credoau, ein gwerthoedd neu mythau cyffredin am gam-drin olygu ein bod yn amharod i adrodd neu ymateb yn briodol.

Mae llawer o honiadau o gam-drin yn ffug

Dwi'n nabod y r un sy'n cael ei gyhuddo a fydden nhw byth yn brifo neb

Nid yw cam-drin yn digwydd yma

Dylem faddau a symud ymlaen

- Dyna pam mae gennym bolisi a phrotocolau y dylem eu dilyn hyd yn oed os yw hyn yn wahanol i'n barn bersonol neu ein dealltwriaeth o sefyllfa.



## Beth i'w wneud …

os ydych yn
CLYWED, GWELD neu AMAU
bod
PLENTYN, PERSON IFANC
neu OEDOLYN BREGUS
wedi dioddef , neu mewn perygl o ddioddef unrhyw fath o
GAMDRINIAETH,
ESGEULUSTOD NEU NIWED

Tudalen cefn yn y llyfryn

Os ydych yn CLYWED, GWELD neu AMAU bod PLENTYN neu OEDOLYN BREGUS wedi dioddef, neu mewn perygl o ddioddef CAMDRINIAETH, ESGEULUSTOD neu NIWED

**gwnewch nodiadau manwl o'r hyn a ddywedwyd, neu yr hyn a welsoch neu'r hyn rydych yn ei amau**

999 — **Os bydd rhywun mewn perygl dybryd:**
Cysylltwch â'r heddlu neu'r tîm gwasanaethau cymdeithasol ar ddyletswydd heb oedi

**Pob pryder arall CEISIWCH GYNGOR**

swyddog diogelu y panel
07957510346
neu eich swyddog diogelu lleol
neu ysgrifenydd gyffredinol

Tu allan i oriau galwch ***Thirtyone:eight 0303 003 1111***
Neu ewch i'n gwefan am fwy o ffynnonellau cymorth
https//:panel.cymru/cy/cyngor-a-chefnogaeth

cyngor — **Os ydych yn amau — ffoniwch am gyngor**
Peidiwch â chymryd yn ganiataol y bydd rhywun arall yn gweithredu
neu bod y sefyllfa ddim digon difrifol i weithredu.
**Nid rôl chi na'r eglwys ydy penderfynu a yw camdriniaeth wedi digwydd**

Ym mhob achos gadewch i'r Panel Diogelu Cydenwadol
wybod am y sefyllfa a'r camau rydych wedi'u cymryd

GWASANAETH NEWYDD Y TU ALLAN I ORIAU
**0303 003 1111**

thirtyone:eight
Creating safer places. Together.

Ar ôl 5pm a tan hanner nos, 7am tan 9am

Penwythnosau, gwyliau banc

Dechrau ym mis Mawrth 2024

Manylion ar ein gwefan

- Cerdyn poced 2 ochr
- ar gael o Swyddfa'r Panel







Mae cymorth a chyngor ar gael bob amser

- Yn ystod oriau swyddfa
- Y tu allan i oriau swyddfa / penwythnosau / Gwyliau banc
- Rhoi gwybod am bryder yn ysgrifenedig

## Ymateb defnyddiol neu ddim?

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. Diolch am ddweud wrthyf ✓ | 2.Dwi'n addo na fyddaf yn dweud wrth unrhyw un arall ✗ | 3 Cymra dy amser ✓ | 4. Roeddet tii'n iawn i ddweud hyn wrthyf ✓ |
| 5. Nid eich bai chi oedd ✓ | 6. Alla i ddim credu hynny – mae'n rhaid bod ti'n yn anghywir ✗ | 7. Mae'n rhaid oedd hi/fo yn meddwl mai dyma bethet oeddet ti eisiau ✗ | 8. Oes yna unrhyw un yr hoffet i mi ei alw? ✓ |
| 9. Fel Cristnogion dylem faddau ac anghofio ✗ | 10. Bydd (enw) ein swyddog yn gallu ein helpu ✓ | 11. Peidiwch â dweud gair arall! Nid fi yw'r person iawn ✗ | 12. Byddaf yn cael gair – rwy'n siŵr y gallwn wneud i hyn fynd i ffwrdd ✗ |

## PEIDIWCH

1. addo cadw unrhyw achos
   o gam-drin yn gyfrinach
2. holi neu gwestiynu'r unigolyn.
3. fynegi sioc neu anghrediniaeth.
4. drafod y mater gyda'r un a gyhuddir neu a amheuir o gyflawni'r drosedd.
4. ymchwilio i unrhyw un o'r honiadau neu'r datgeliadau eich hun.



Tudalen 17 yn eich llyfryn

## OS BYDD RHYWUN YN DATGELU CAMDRINIAETH I CHI.

| | |
|---|---|
| Byddwch yn amyneddgar a dangos dealltwriaeth | Gwrandewch yn ofalus |
| Dangoswch eich bod yn derbyn yr hyn y maent yn ei ddweud drwy ailadrodd geiriau neu ymadroddion byr | Dylech sicrhau'r person ei fod yn gwneud y peth iawn trwy ddatgelu |
| Os ydynt mewn perygl difrifol, cysylltwch â'r Heddlu neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar unwaith | Gwnewch nodiadau manwl cyn gynted â phosibl. |



Tudalen 17 yn eich llyfryn

## Adrodd

**Nid chi na'r eglwys sy'n penderfynu a yw'r cam-drin wedi digwydd ai peidio.**

Eich cyfrifoldeb chi yw rhoi gwybod i'r person priodol



YMATEB

## DYLETSWYDD I ROI GWYBOD AM BRYDERON

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)2014 s.128, yn nodi'r ddyletswydd a roddir ar 'bartneriaid perthnasol' i roi gwybod am oedolion a phlant os oes ganddynt reswm rhesymol i amau eu bod mewn perygl o niwed.

Disgwylir i bawb nad yw eu hasiantaethau wedi'u cynnwys fel 'partneriaid perthnasol' uchod, gyfeirio unrhyw bryderon diogelu yn yr un modd â'r rhai sydd â Dyletswydd benodol i Adrodd.



https://safeguarding.wales/en/chi-i/chi-i-c2/c2-p4



Rhestr wiro yr eglwys mwy diogel atodiad10

## Beth nesaf?

## TRI PHETH ALLWEDDOL I GOFIO

1. Mae diogelu yn gyfrifoldeb i bawb
2. Dychmygwch yr anychmygol
3 Peidiwch bod ofn gofyn am help neu gyngor

SUL DIOGELU 2025

16 Tachwedd 2025

https://panel.cymru/cy/sul-diogelu



Diolch am gymryd rhan yn yr hyfforddiant heddiw